# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 3 MAI 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

## Côr Mizoram yn Y Capel Mawr



Côr Synod Mizoram yn rhoid gwefr i'r gynulleidfa





Gwasanaeth Fore'r Pasg yn y Castell Dinbych dan arweiniad Y Parch Nesta Davies

**BOB DIM i fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfrgell erbyn HANNER DYDD, dydd Gwener, Mai 24, neu os oes modd, drwy ebost i ybigwn@hotmail.co.uk - Ar Werth Mehefin 8, 2019**

## BYWYD I BAWB (Tud 5)



Yn y gegin.



Y Parch Graham Floyd yn arwain ei dîm.



Y Buddugwyr



Bwyta, Cymdeithasu a Phendroni



# Apel Urdd Dinbych 2020

(Hanes ar tud 8)

## Grŵp Eirin Dinbych



Trip Criw Eirin Dinbych i Turin yn yr Eidal (Tud 7)




Tsiytni Eirin Dinbych ar sgons Caws Caerffili yn cael eu gweini'n y Ty Cyffredin ym mis Mawrth.



Jane Pugh (Tud 5)

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones 01745 812214
russelljones9 @talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

# Gair gan y Golygydd

Rwyf am dynnu eich sylw at stori sydd wedi dod i'r amlwg yn y wasg yn ddiweddar , sef y protestiadau diweddar yn Llundain. Grŵp o'r enw 'Extinction Rebellion' sydd yn eu cynnal Grŵp Protest Rhyngwladol ydy'n nhw sy'n barod i dorri'r gyfraith drwy ddulliau di-drais cymdeithasol i gyflawni eu hamcanion o ddenu sylw pobl at faterion amgylcheddol. Mae rhai o'u protestiadau amlycaf yn cynnwys atal trafnidiaeth rhag croesi pontydd Llundain a chynnal protest hanner noeth yn Nhŷ'r Cyffredin.

Ond heb os, llwyddiant mwyaf y grŵp yw ei protest diweddaraf yn Llundain dros bont Waterloo sydd wedi denu sylw'r wasg ledled y byd. Gyda'r protestwyr yn cau prif strydoedd y ddinas ac yn gludo eu hunain i drenau, anodd yw eu anwybyddu. Mae 950 wedi eu harestio hyd yn hyn ac mae heddlu Llundain bellach yn cael trafferth darganfod llefydd yn y carchardai i'r rhai sydd wedi eu cyhuddo. Yn ôl sôn mae miloedd o wirfoddolwyr newydd wedi uno gyda'r protestiadau, sydd bellach wedi ymledu i dri safle arall yn ganol y ddinas. Beth bynnag eich barn am y digwyddiadau yma, mae'n rhaid edmygu brwdfrydedd ac egni'r bobl yma i ymledu eu neges. Efallai rydych chi'n meddwl eu bod nhw'n creu stŵr am ddim rheswm neu yn cytuno gyda'u neges. Fodd bynnag, rhaid cyfaddef fod y grŵp yma wedi cael dylanwad sylweddol yn ddiweddar, o ystyried mae canran bach o bobl ydynt - mewn gwirionedd mae eu neges wedi bod yn bellgyrhaeddol.
Mae'r protestiadau wedi ymddangos yn hynod o lwyddiannus gan fod y grŵp wedi tapio mewn i ddrwg deimlad ac ymagwedd pobl gyffredin, i bwnc llosg fel newid hinsawdd, sydd yn fater o bwys sylweddol yn wyddonol a gwleidyddol. Dywed y gwyddonwyr a'r academwyr mai dyma yw argyfwng mwyaf ein bodolaeth. Dim syndod fod rhai yn teimlo mor gryf am y mater. Yn wir yn ôl y grŵp mae'r byd yn 'wynebu argyfwng hinsoddol'.
Mae'r protestiadau yma yn enghraifft wych o bobl sydd yn rhannu'r un syniadau ac amcanion yn dod at ei gilydd i wneud gwahaniaeth yn dilyn gweithredu Greta Thurnberg 16 oed o'r Sweden . Drwy gydweithio a rhannu'r un nod mae'n bosib cyflawni'r amhosib. Yn wir mewn undod mae nerth - mae hyn yn wers i ni gyd. Mae'n bwysig sefyll fyny dros yr hyn rydym yn ei gredu. A'i nid dyna ffordd orau o roi gwerth a'r rhywbeth? Mae'r digwyddiad diweddar yma yn enghraifft wych o lais unigolyn fel Greta Thurnberg yn ennill sylw a dylanwad. Mae'n dangos fod pob un ohonom ni o bwys, mae bob llais yn cyfri! Mae hi wir yn bosib i unrhyw un ohonom wneud gwahaniaeth.

Os oes gennych chi ddiddordeb cyfrannu i'r Bigwn mewn unrhyw ffordd, rydym wastad yn hapus i dderbyn unrhyw gyfraniad neu os hoffwch ymuno gyda'r tîm Golygyddol cysylltwch. Cofiwch bod Y Bigwn bellach gyda gwefan ei hun ar https://ybigwn.cymru/index.php

Morgan Cordiner

**Ar achlysur lansio cyfrol Eifion Lloyd Jones, "A Chawsom Iaith..."**

Fel dibrin flodau Ebrill, – yn gywrain
blagurodd pob pennill;
yn hardd, canodd bardd ei bill –
rwyf finnau ar fy ennill.

William Lloyd Griffith.

Lluniau tu mewn i glawr cefn Y Bigwn

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**
Gwyneth Kensler £15
Helen Owen, Lôn Derwen £5
Mark Young £6

## Golygydd Mis Mehefin: Angharad Rhys

## Dyddiadur

**Nos Wener, Mehefin 21ain. am 7yh**
Noson Goffi a Hwyl
yn Ysgol Llanrhaeadr
MENCAP Dinbych a
Rhuthun

# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS.

Bore Sul, Mawrth 24ain agorwyd yr Ysgol Sul gan Catrin Roberts. Tudur Hughes oedd y cennad yn oedfa'r pnawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.
Ar y Sul olaf o fis Mawrth Catrin Jones a'i mab Cai fu yn gofalu am y rhannau arweiniol yn yr Ysgol Sul. Y Parch. Andras Iago fu yn gwasanaethu yn y prynhawn. Bryan Roberts oedd wrth yr offeryn. Lis Edwards agorodd yr Ysgol Sul Ebrill 7ed. Mr Dilwyn Jones fu yn pregethu yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd wrth yr offeryn. Nos Lun, Ebrill 8ed yng Nghymdeithas Ddiwylliadol y Fron a'r Brwcws ein gwr gwadd oedd Dafydd Timothy. Prynhawn Sul Ebrill 14eg cawsom y fraint o glywed Cor Synod Mizoram, India yn canu yn y Capel Mawr.
Yr Ysgol Sul Llongyfarchiadau i Arthur Jones a'r ennill cadair Eisteddfod Gwyl Ddewi, Ysgol Twm o'r Nant. Pob hwyl i'r canlynol fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd - Arthur Jones unawd piano, Beca Fflur Edwards - unawd, unawd cerdd dant ac alaw werin , ac hefyd deuawd gyda Mari Grug. Llongyfarchiadau hefyd i Flora Jones ar ei llwyddiant mewn cystadleuaeth nofio. Casgliad Cenhadol. Diolch i'r chwiorydd am eu cyfraniad o £70

## CAPEL Y FRON

Bore Sul Mawrth 24ain estynwyd croeso i Mr Tudur Hughes ar organyddes oedd Mrs Iona Edwards. Nos Sul Mawrth 31ain yr oedd oedfa'r hwyr dan ofal ein Bugail Y Parch Andras Iago ar organyddes oedd Eiri Jones.
Fe wnaeth Mr Richard Snelson, llwydd y mis estyn croeso i Mr Dafydd Timothy atom bore Sul Ebrill 2ail ar Sul yma Iona Edwards oedd yn cyfeilio. Nos Sul Ebrill 9fed yr oedd yr oedfa dan ofal y Parch Dewi Morris ar organyddes oedd Eiri Jones.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Profiad ysbrydol a gwefreiddiol! Dyna'r ymadrodd a oedd ar wefusau pawb o'r Fro a ddaeth i wrando ar Gôr Synod Mizoram yn Y Capel Mawr ar brynhawn Sul, Ebrill 14eg.
Roedd cynulleidfa deilwng iawn wedi dod ynghyd a chafwyd y pleser o wrando ar y côr hwn o bobl ifainc yn canu emynau mewn Mizo, Saesneg a Chymraeg, a phawb yn rhyfeddu at yr ynganiad perffaith wrth iddyn nhw ganu yn y Gymraeg, yn arbennig felly gyda'u datganiad o "Calon Lân".
Ar ôl cael eu cyfareddu gan sain anhygoel y côr safodd pawb fel un i gymeradwyo.
Melys moes mwy.
Am ryw reswm cyrhaeddodd y côr oddeutu ugain munud yn hwyr, ond camodd y Parch Aneurin Owen, Llansannan, i'r adwy.
Treuliodd ei blentyndod yn y rhan hon o Ogledd Ddwyrain yr India pan oedd ei rieni yn genhadon yno, a bu ar ymweliadau droeon â'r rhanbarth dros y blynyddoedd.
Gadawodd y cenhadon cynnar a anfonwyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru eu stamp ar y rhanbarth, ac roedd y côr yn ymweld â Chymru er mwyn dangos gwerthfawrogiad pobl Mizoram o'r genhadaeth Gristnogol.
I'r perwyl hwn cyflwynwyd anrheg ar eu rhan gan eu harweinydd i'r Parch. Andras Iago, cydlynydd y cyngerdd cysegredig.
Yr organyddes wrth i'r côr ymuno â'r gynulleidfa mewn defosiwn amlieithog oedd Mrs Dorothy Rogers.
Roedd chwiorydd Y Capel Mawr wedi paratoi lluniaeth ar gyfer y côr a'r gynulleidfa ar derfyn yr oedfa a chafwyd cyfle i gymdeithasu â hwy.
O ran oedfaon, cafwyd cwmni Mr Tudur Hughes ar nos Sul, Mawrth 24ain, gyda Mrs Catrin Warren yn cyfeilio a'r Gweinidog ar fore'r Sul canlynol gyda Mrs Dorothy Rogers wrth yr organ.
Mrs Llinos Mary Jones oedd y cennad ar fore'r Sul cyntaf o Ebrill, a chroesawyd hi gan Mr Ifor John Jones, llywydd y mis. Mrs Catrin Warren oedd y cyfeilydd.
Croesawyd y Parch. Dewi Morris atom ar fore Ebrill 14eg. Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.

## AELWYD CAPEL MAWR

Dechreuwyd Cyfarfod mis Ebrill gan Freda Evans yn darllen hanes y sipsiwn o lyfr Huw Williams Hafod Elwy.

Croesawyd y gwr gwadd gan Helena Williams. Roedd Eryl Roberts y Rhyl wedi dod i roi hanes y Sipsiwn Cymraeg. Cawsom brynhawn hynod o ddifyr yn clywed hanes teulu Abram Wood. Yn wahanol i'r ddelwedd sydd gennym o'r sipsiwn, nid oedd y rhain yn defnyddio carafanau. Yn hytrach roeddent yn aros mewn ysguboriau neu dai rhent. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn anllythrennog, Ond yn fedrus iawn mewn llawer maes. Roeddent yn gerddorol iawn yn medru canu'r delyn deires, y ffidl a'r ffliwt. Medrai rhai ganu a dawnsio, ac eraill yn bysgotwyr medrus. Roedd rhai yn enwog am eu moddion a'u swynion. Clywsom am lawer o'u arferion wrth briodi, bedyddio a marw. Roeddent yn siarad Romani, ac roedd ganddynt enwau eu hunain ar lefydd - Tref y Cwn oedd Dinbych a Sir Llaeth a Bara oedd Sir Ddinbych. Roedd Dr John Sampson o Brifysgol Lerpwl yn un o'u cyfeillion a bu'n byw gyda hwy am gyfnod yn Betws Gwerfyl Goch. Pan fu farw ei ddymuniad oedd cael chwalu ei lwch ar Ben Foel Goch ger Llangwm. Roedd cannoedd yno ac enwogion yn eu plith fel yr arlunydd Augustus John. Diolchwyd i Eryl gan Tom Williams ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am y baned.


Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych 01745 812333


Stad Ddiwydiannol Gaerwen 01248 421900
Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

# Y Cymdeithasau



Jane Pugh - 'Chocolate Fantasy'

## Y Clwb Gosod Blodau

Agorwyd y cyfarfod gan Felicity ac estynnodd groeso cynnes i bawb. Ein harddangoswraig oedd Jane Pugh o Lydbury North, a'i thema oedd "Ffantasi Siocled." 'Cadbury Milk Tray' oedd ei hysbrydoliaeth cyntaf gyda lliwiau cochlas y papur lapio – (rhywbeth nad oes gan neb hawl i'w greu, ei gopio na'i ddefnyddio). Gwnaeth y gosodiad o ddeiliach, lizianthus cochlas, carnasiwns a rhedyn ac ychwanegodd far o siocled Cadbury. Roedd ei sgwrs yn ddiddorol iawn.

Yr ail osodiad oedd un mewn cynhwysydd crwn ac arno rhoed deiliach o wahanol liwiau. Rhosod lliw oren prydferth a charnasiwns gyda sbrigau brown i awgrymu sleisiau siocled i gynrychioli Siocled Oren Terry a ychwanegodd i'w gosodiad cyn dechrau canu "I only know I love you" gan lygadu'r siocled.

Defnyddiwyd cwch gwiail i greu'r trydydd un gyda brigau palmwydd, rhedyn gwyrdd, deiliach llwydliw, delphiniwm glas gyda lizianthus gwynion i awgrymu'r elfen goconut a rhosod gwynion. Wedyn ychwanegwyd siocled Bounty. Hyfryd.

Gwnaeth y pedwerydd gosodiad mewn gwydryn siampén mawr drwy ychwanegu rhedyn gwyrdd, dail skernia, chrysanthemyms a charnasiwns o wahanol wyrddni, liliau gwynion dwyreiniol cyn ei orffen â siocled Mint Aero.

Y gosodiad olaf oedd "Chocolate Flake" a wnaed mewn blocyn mawr o goed gan ddefnyddio lliwiau'r papur lapio – deliach gwyrddion, Iris glas, Rhosod melyn, Carnasiwns lliw lemon, Latris cochlas cyn ychwanegu tri gosodiad arall a wnaed ymlaen llaw. Yna, ychwanegodd y "Chocolate Flake" a wnaeth i ni awchu am ddarn o siocled.

Talwyd y diolchiadau gan Ann Jones. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Fai 7fed.
(Llun tud 2)
*Margherita Jones*

## Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws



Gŵr gwadd mis Ebrill oedd Dafydd Timothy, perchennog Siop y Morfa yn y Rhyl tan 2010. Mae'n dal i werthu llyfrau ar lein ac mae hefyd yn gyfieithydd.

Testun ei sgwrs oedd, "Twrio rhwng Tudalennau a Chwis."

Trefnodd Dafydd arddangosfa o hen, hen lyfrau inni a braint oedd bodio'n ofalus drwy lyfrau oedd sawl canrif oed fel Yr Egywyddor Gymraeg i'r Deillion mewn Llythrennau Chwyddedig gan W. Moon 1856 a hyn cyn y Braille cyntaf yn y Gymraeg. Hefyd daeth Dafydd â bocseidiau o lyfrau ail law efo fo ac fe gawsom chwilota drwyddyn nhw a dewis ambell un i fynd adref efo ni!

Bu Dafydd hefyd yn twrio mewn hen lyfrau, papurau newydd fel Baner ac Amserau Cymru a dyddiadur rhyfel ei dad gan ddarllen pytiau diddorol ohonynt i ni fel cynulleidfa. Roedd tad Dafydd, Owen David Timothy neu Owie yn fferyllydd yn yr Ail Ryfel Byd ac wedi sgwennu dyddiadur manwl sy'n golygu llawer i Dafydd a'r teulu. Bu tad Dafydd yn fferyllydd yn Rhuddlan a'r Rhyl ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Ail ran y noson oedd cwis Cymreig ei naws gan gynnwys Cyfenwau Cymru – roedd y timau wedi mwynhau'r cystadlu.

Cyflwynwyd y gwestai gan Rhianwen Williams a Rhianwen dalodd y diolchiadau ar ddiwedd noson ddifyr.

## BYWYD I BAWB

Fel rhan o weithgareddau codi arian tuag at Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, "Bywyd i Bawb", fe drefnwyd Noson Cawl a Cwis gan Gymdeithas Eglwys Lôn Swan (Cymdeithas y Chwiorydd gynt).

Cafwyd noson hwyliog a chymdeithasol dros ben, gan gychwyn gydag ychydig o gefndir am ein cysylltiadau agos â'r ynys, drwy ddefnyddio rhannau o'r DVD rhagorol hwnnw "Apêl Madagascar 2018-2019" sydd wedi ei gynhyrchu gan yr Undeb. Rhaid dweud fod Cân Plant Madagascar a Chymru yn "hit" mawr efo pawb unwaith eto!

Wedyn daeth cyfle i gael bwyd a gwneud y cwis, gan obeithio osgoi gwneud cawl o bethau. Yn dilyn tair rownd o luniau am Leoliadau Cudd Dinbych, Cestyll Cymru ac Enwogion Gogledd Cymru, roedd dau dîm ar y brig, sef "Cidwmeade" a'r criw hyderus, sef "Y Buddugwyr". Felly bu'n rhaid cael cwestiynau torri'r ddadl ("tie-break") am Fadagascar i setlo'r mater. Ac, wrth gwrs, "Y Buddugwyr" aeth â hi, gydag Erfyl o Gapel y Fron yn gallu dweud fod yr Ynys Las (Greenland) yn un o'r dair ynys yn y byd sy'n fwy na Madagascar. Gallwch chi enwi'r ddwy arall 'sgwn i?

Er gwaetha'r holl gystadlu brwd, cafodd pawb oedd yno eu gwobrwyo gydag Ŵy Pasg (bach!)

Yn dilyn llwyddiant y noson penderfynwyd cyfrannu £300 tuag at yr Apêl.

Diolch o galon i bawb am wneud yn noson yn un mor llwyddiannus a phleserus.
(Llun tud 2)

*John Davies*

## Cymdeithas Meibion Caledfryn



Robat Arwyn, y cerddor, y cyfansoddwr ac arweinydd Côr Rhuthun oedd ein gŵr gwadd yn ein cinio blynyddol ym Melin Brwcws.

Aeth Arwyn â ni ar daith gerddorol o'i waith gan roi cefndir i'w ganeuon ac yna eu canu i'w gyfeiliant ei hun ar yr allweddellau.

Dechreuodd gyda chân o 'Plas Du,'sioe gerdd a gyfansoddodd ar gyfer Radio Cymru yn 2002 gyda'r geiriau gan Hywel Gwynfryn. Atgyfodwyd y sioe hon ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2006.

Yn 2001 derbyniodd gomisiwn gan yr Eisteddfod Genedlaethol i gyfansoddi 'Atgof o'r Sêr'(8 cân) a berfformiwyd gan Bryn Terfel, Fflur Wyn a Chôr Rhuthun yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2001.

Canodd Arwyn 'Benedictus' i ni – cân adnabyddus a gyd-ganodd Rhys Meirion gyda Bryn Terfel yn 2005, cân o'r gwaith corawl 'Er Hwylio'r Haul.' Recordiwyd y gân hon gan y triawd o offeiriaid Pabyddol, The Priests, ar eu halbwm a fu'n llwyddiant ysgubol. Tybiai Arwyn fod rhywun o Gôr Rhuthun yn tynnu ei goes pan gysylltwyd ag o gan y cwmni recordio!

Mae geiriau 'Anfonaf Angel' a ysgrifennwyd gan Hywel Gwynfryn i godi arian at elusen Ambiwlans Awyr Cymru gyda dehongliad gwahanol sef unigrwydd mewn gwesty mewn gwlad bell ond mae'n anthem i'r Ambiwlans Awyr. Recordiwyd y gân yn wreiddiol gan Bryn Terfel a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru yn 2010. Canodd Arwyn ei gân eiconig i ni.

Yn niwedd y 90au cyfansoddodd Arwyn ganeuon i blant gan gynnwys cân ar bêl-droed i Guto'r mab a chân dan y teitl 'Y Ddraig' i'w ferch, Elan. Cawsom y pleser o wrando ar y ddwy gân ganddo.

Yn yr 80au cyfansoddodd 'Yfory' i Eirlys Parri ac ymddangosodd y gân ar finyl. Canodd Arwyn hon i ni – mae'n gân hyfryd!

Fel cynulleidfa ym Melin Brwcws, cawsom fwynhau talentau cerddorol Arwyn a diddorol oedd yr hanesion tu ôl i'w ganeuon.

Cyflwynwyd Arwyn gan Richard Snelson, Llywydd Cymdeithas Caledfryn ac fe dalwyd y diolchiadau gan Erfyl Williams.

Noson o fwynhad!

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"




**RHYBUDD**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.


Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/ lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn






# Grŵp Eirin Dinbych

Penllanw dros 12 mlynedd o waith gan grwp o wirfoddolwyr oedd derbyn statws PDO- Statws Enw Tarddiad Gwarchodedig, yn union fel Halen Môn a Chregin Gleision Conwy, i Eirinen Dinbych Dyffryn Clwyd ar 19eg Chwefror 2019.

Tua 12 mlynedd yn ôl penderfynodd Grwp Busnes Dinbych fod angen dathlu Eirin Dinbych gan fod y frwyth mor boblgaidd yn ardal Dyffryn Clwyd ar hyd y blynyddoedd a chodi ymwybyddiaeth amdani. Roedd nifer y coed yn lleihau gan eu bod yn dod i ddiwedd eu hoes ond yn ffodus daeth Ian Sturrock o Fangor i'r adwy a dechrau graffito. Erbyn hyn gellir prynu coed Eirin Dinbych gan Ganolfan Arddio Greenfingers yn Ninbych. Penderfyniad arall oedd dechrau Gwyl Fwyd a fyddai'n dathlu unig Eirinen cynhenid Cymru. Dros y blynyddoedd mae'r Wledd Fwyd wedi tyfu o nerth i nerth ac yn denu cynhyrchwyr bwyd a diod o safon uchel o bob rhan o Ogledd Cymru a thu hwnt. Mae cogyddion enwog hefyd wrth eu bodd gyda'r Eirin ac Ellis Barrie o'r rhaglen Great British Menu yn Noddwr penigamp o'n ffrwyth lleol. Un arall o'n noddwyr yw Steve Knightley y canwr enwog a bu ei gyngerdd yn Theatr Twm o'r Nant yn llwyddiant nôl ym mis Chwefror.

Mae crefftwyr lleol hefyd wedi defnyddio'r Eirinen yn eu gwaith. Mae mygiau a phlatiau Sarah Carvell yr artist o Ddinbych wedi bod yn boblogaidd dros ben a lliain sychu llestri Catherine Bailey wedi eu hanfon yn anrhegion i bob gwlad dan haul. Mae gemwaith cain Sian Vaughan-Jones o'r eirin hefyd wedi plesio llawer. Mae hyn i gyd yn helpu gyda'n gwaith I drefnu'r Wledd Eirin blynyddol.

Bu tipyn o waith yn y cefndir yn ystod y chwe blynedd diwethaf pan waned y cais i geisio am statws gwarchodedig. Roedd angen ymchwilio i'r tywydd yn y dyffryn, y pridd a'r hyn oedd yn gwnud yr eirinen yn unigryw. Bu ymgymghoriad ar lefel Prydain ac yn yn fwy diweddar drwy Ewrop gyfan a chyfieithwyd y ddogfen I 27 iaith. Mae'n siwr y daw hynny a chryn sylw I Ddinbych a Dyffryn Clwyd yn ei sgil .

Mae cael y statws yn rhoi cyfleon twristiaeth gwych i Ddinbych a Dyffryn Clwyd, cyfleon datblygu cynnyrch bwyd, cyfleon hyfforddi sgiliau tyfu a gofalu am eirin ac yn diogelu ein treftadaeth gyfoethog o dyfu bwyd. Mae Dinbych ar y map.

Os oes gennych ddiddordeb bod yn aelod o'r grwp, cysylltwch trwy ebost valeofclwyddenbighplum@gmail.com Medrwch ddod i'n cyfarfodydd i drefnu'r Wledd Eirin a digwyddiadau eraill neu oes yn well gennych gasglu eirin ym mis Awst byddwn hefyd yn ddiolchgar o'ch cymorth . Bydd ein Cyfarfod Blynyddol ar 30ain Ebrill yn y Llew Gwyn Dinbych am 6.30pm. Croeso i bawb.

# Trip Criw Eirin Dinbych i Turin yn yr Eidal

Ym mis Chwefror aeth criw o aelodau'r Grwp Eirin Dinbych draw i ardal Turin. Roedd Menna Jones a'i theulu wedi cynnig llety tua 40 mlynedd yn ol i ffermwr ifanc o San Damiano d'Asti a chafodd y grwp gyfle i ymweld a fferm y teulu a'r dref fechan hanesyddol. Ymweliad arall oedd i Brifysgol mudiad Slow Food yn Pollenza-University of Gastronomic Science. Bu myfyrwyr o'r Coleg hwn am y dair blynedd diwethaf yn aros yn Ninbych fel rhan o'u Taith Dysg o Gymru.

Roedd y criw i gyd wedi mwynhau eu hymweliad ac ambell un yn awyddus i fynd nol yn fyfyriwr aeddfed i ddysgu am fwyd a diod yn yr Eidal. Cafwyd cyfle hefyd i ymweld a cynhyrchwr caws ym nhref Bra ac ymweld a fferm gydweithredol oedd yn tyfu eirin a phob math o o ffrwythau a llysiau. Cefnogwyd y trip yn rhannol gan grant teithiau dysgu Cadwyn Clwyd.

Oes os diddordeb gennych mewn wersi dysgu siarad Eidaleg cysylltwch ag Alyn Ashworth yn y Goron Fach neu alyn@shworth.com

(Lluniau tud 2)



# Apel Urdd Dinbych 2020

Dyddiad i'ch dyddiaduron:

**Ras Liwiau 5K, yr Arena,Promenâd, Y Rhyl.**

**Medi 15fed, 2019 am 11:00**

Mae bod yn Rhedwr Lliw yn ffordd o fyw o ddewis. Bywyd sy'n llawn cerddoriaeth grêt, hunluniau cŵl, torf hapus, bagiau o fanion anhygoel, a LLOND LLE o liw. Bydd yn barod i edrych fel yr enfys tra'n dathlu iechyd a hapusrwydd wrth gael amser gwerth chweil.

Bydd cannoedd o Redwyr Lliw yn cychwyn y diwrnod mewn crys-T gwyn, yna'n cael eu gorchuddio â chawodydd o baent lliwgar o'u corryn i'w traed wrth groesi pob cilomedr o'r cwrs. Does dim rhaid rhedeg; gelli gerdded, sgipio, hopian neu ddawnsio dy ffordd o amgylch. Does dim amseru chwaith, gan fod y pwyslais ar gael hwyl a sbri!

I hel atgofion ac i wenu o glust i glust mewn môr o liw - dyma'r digwyddiad mwyaf lliwgar i ti.

Mae'r tâl cofrestru yn cynnwys: mynediad i'r digwyddiad, sbectol haul Ras Liwiau, bag bychan o baent, medal liwgar a dŵr.

Bydd y Ras Liwiau yn cychwyn ac yn gorffen yn yr Arena, Promenâd, Y Rhyl.

Bydd hon yn Ras hwyl ar ei gorau. Bydd yn barod am yr annisgwyl - cawodydd o baent lliwgar ar hyd y daith. Bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at fwynhad ein pobl ifanc yn Eisteddfod yr Urdd, Dinbych 2020.

Felly beth amdani? Cofrestwch drwy ymweld â gwefan Bespoke Fitness: https://bespokefitness.niftyentries.com/Urdd-5K-Colour-Run
Neu drwy ffonio: 07769958671
Ar eich marciau …..barod…..ewch!

(Llun ar dudalen ail)



I fyny yn y Castell dros y Pasg, roedd ambell i wningen go fawr i weld yno.

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell

92 Stryd y Dyffryn, Dinbych
01745 812132

/gwasg.com PRINT
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO
Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

# MERCHED Y WAWR RHANBARTH GLYN MAELOR

**PWYLLGOR RHANBARTH:** Cynhaliwyd y Pwyllgor nos Lun, 8 Ebrill yng Ngholeg Cambria Llysfasi. Roedd cynrychiolaeth o 12 cangen yn y pwyllgor. Trafodwyd y gweithgareddau rhanbarth a chafwyd adroddiadau o'r pwyllgorau cenedlaethol, sef y Pwyllgor Rhyng-ranbarthol, y Pwyllgor Cyllid, yr Is-bwyllgor Iaith a Gofal, yr Is-bwyllgor Gŵyl a Hamdden, ac Is-bwyllgor Y Wawr. Cafwyd gair hefyd gan ein Swyddog Datblygu, Anwen Williams. Rhai pwyntiau o ddiddordeb yn yr adrodd yn ôl yw:

Bydd caneuon cynllun 'Cân y Gân' yn mynd ar CD a bydd y CD yn cael ei ddosbarthu i gartrefi gofal fel bo modd i breswylwyr allu clywed caneuon Cymraeg.

Diolchir i'r aelodau am ddosbarthu'r posteri Dementia. Mae posteri ychwanegol ar gael o'r swyddfa yn Aberystwyth.

Anogir ni i gofio tynnu sylw mewn siopau, bwytai, gwestai fod posib cyfieithu am ddim arwyddion, bwydlenni a labeli i'r Gymraeg drwy Swyddog Busnes y Mentrau Iaith.

Y materion y mae Merched y Wawr yn lobïo arnynt yw banciau (diffyg defnydd o'r Gymraeg, canghennau'n cau, dim Cymraeg ar lein), y swyddfeydd post (yr un fath), a'r faniau teithiol (yn ddiffygiol, yn cau ar amser er bod ciw yn dal i aros, dim ystyriaeth i bobl hŷn).

Trafododd yr Is-bwyllgor Iaith a Gofal hefyd ddefnydd Trenau Cymru o'r Gymraeg, y diffyg cywirdeb cystrawen ar Radio Cymru a S4C a bod rhaid hel tystiolaeth gydag enghreifftiau penodol os am gwyno, bod ffurflen amlosgfa ar gael yn y Gymraeg gan y Cyngor a'r amlosgfeydd os gofynnwch amdani, toiledau cyhoeddus – nodwch pa rai sydd ar agor yn y papur bro, a'r angen i ofyn am ddarpariaeth cyfieithu i gleifion sy'n hapusach yn trafod cyflwr yn eu mamiaith.

Llongyfarchwyd Celia Watkin, Yr Wyddgrug ar ei herthygl yn Y Wawr diwethaf.

Diolchwyd i Elin Llwyd Morgan, Dyffryn Ceiriog am ei herthygl yn Y Wawr nesaf.

Gall unrhyw un nad yw'n aelod brynu'r Wawr yn y siopau llyfrau Cymraeg.

Tynnodd Anwen Williams sylw at bwysigrwydd ein gweithgareddau gyda dysgwyr. Adroddodd y canghennau yn ôl am beth a wneir gyda dysgwyr.

Llongyfarchwyd cangen Rhuthun ar ennill tlws yng Nghinio'r Llywydd am y cynnydd mwyaf o aelodau – 8 aelod newydd. Llongyfarchwyd Rhuthun hefyd ar ddathlu'r 50, sef dathlu 50 mlynedd er sefydlu'r gangen.

**PROSIECT Y LLYWYDD CENEDLAETHOL:** Lansiwyd y Prosiect yn y Ffair Aeaf 2018, ac ar hyn o bryd mae'r canghennau wrthi yn ymateb i'r her o gasglu 6000 o fagiau sbwriel, plastig a chaniau ar draws y Rhanbarthau, sef bag ar gyfer pob aelod, erbyn y Ffair Aeaf nesaf. Mae Merched y Wawr yn gweithio ar y cyd gyda Chadwch Gymru'n Daclus ar y Prosiect hwn.

**CHWARAEON RHANBARTH:** Bu'r Chwaraeon Rhanbarth yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun nos Fercher, 10 Ebrill. Cafwyd noson hwyliog a phawb yn mwynhau'r cystadlu a'r cymdeithasu. Diolch i gangen Llanrhaeadr am baratoi'r baned. Dyma'r canlyniadau:



Cangen Dinbych yn gydradd gyntaf yng nghystadleuaeth y Ddau Ddwrn yn Chwaraeon Merched y Wawr Rhanbarth Glyn Maelor

Dominos: 1af Llanfair D. C., 2il Rhuthun, cyd 3ydd Dinbych a Llanrhaeadr.

Dau ddwrn: cyd 1af Rhuthun a Dinbych, 2il Llanfair D. C.

Dartiau: 1af Llanfair D. C., 2il Dinbych.

Gyrfa Chwist: 1af Wrecsam, 2il Llanrhaeadr, cyd 3ydd Llanfair D. C. a Dinbych.

Sgrabl: 1af Dinbych.

Tenis bwrdd: 1af Rhuthun, 2il Dinbych.

Bowlio: bydd 4 cangen yn cystadlu ar ddyddiad i'w drefnu.

Aiff y cyntaf a'r ail ym mhob cystadleuaeth ymlaen i gystadlu yn genedlaethol yn awr yn yr Ŵyl Haf.

**YR ŴYL HAF**: Cynhelir yr Ŵyl Haf Genedlaethol ym Machynlleth Ddydd Sadwrn, 18 Mai. Yn y bore, bydd y cystadlaethau chwaraeon, beirniadu'r crefft a'r coginio, a'r cyfarfod blynyddol (mae pob cangen yn cael dau docyn pleidleisio). Yn y prynhawn bydd y cystadlaethau llwyfan a'r gwobrwyo. Dewch â'ch gwaith crefft a choginio fore'r Ŵyl. I'ch atgoffa, dyma'r cystadlaethau:

Crefft: Addurn ar gyfer top y Goeden Nadolig.

Crefft: Eitem wedi ei grosio.

Crefft: Eitem mewn piws/pinc/piws a phinc.

Coginio: Losin – ffrwythau Marsipan.



**NOSON GREFFT:** Bydd Ceri Llwyd, y ffotograffwraig, yn arddangos ac yn sgwrsio am ei gwaith yn y Noson Grefft yn Neuadd Llandyrnog nos Fawrth, 21 Mai. Bydd hefyd gyfle i aelodau, cyn-aelodau a darpar aelodau arddangos neu werthu eu gwaith crefft/cynnyrch hwythau ar y noson – cysyllter â Nia Davies, yr Ysgrifennydd Rhanbarth ar 01824 703308 er mwyn sicrhau gofod arddangos. Bydd cystadlaethau Sioe Llanelwedd, sef cystadleuaeth Cwpan Radi Thomas a'r gosod blodau, yn cael eu beirniadu ar y noson hefyd.

**GŴYL RANBARTH:** Fe'i cynhelir yng Ngwesty Plas Hafod, Gwernymynydd, Yr Wyddgrug nos Fercher, 12 Mehefin ar ffurf swper ac adloniant gan Siân James. Mae croeso i gyn-aelodau a darpar aelodau ymuno â ni ar y noson. Mae'r manylion llawn a'r ffurflenni archebu bwyd gan bob ysgrifennydd cangen. Bydd angen yr enwau erbyn 21 Mai .

**TAITH GERDDED RANBARTHOL:** Bydd yr aelodau yn cyfarfod ym Maes Parcio'r Pafiliwn yn Llangollen am 5.50yh nos Fercher, 18 Medi. Bydd dewis o 2 daith – un hamddenol ar hyd y gamlas ac un arall yn 4 milltir (mynd at Lantysilio, heibio Abaty Glyn y Groes a Moel Tan y Coed, ac yn ôl i Langollen). Bydd cyfle i gyd-fwyta yn Nhafarn y Britannia ar ôl y cerdded.

**HEN LUNIAU**

Os oes gennych hen luniau o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.




# DEMENTIA GYFEILLGAR DINBYCH

Mae pethau yn mynd o nerth i nerth ar hyn o bryd hefo rhagor o sefydliadau yn bodloni'r gofyn ac yn cyflawni eu haddewidion ac ymgysylltu hefo grwp Dementia Gyfeillgar Dinbych.

Mae Dinbych yn arwain y ffordd i raddau yn hyn a dyma Dilwyn yn cyflwyno tystysgrif i Vanessa o "Healthcare Staff Recruitment" Llanelwy gan nad yw Llanelwy hefo statws Dementia Gyfeillgar eto…….



Yn olaf, dyma Dilwyn a Prydwen Elfed-Owens, siaradwyr, yn nau ben y llun hefo criw yng Nghapel Waengoleugoed mewn bore ymwybyddiaeth o ran Dementia ar Ebrill 12fed………

## Wythnos Cymorth Cristnogol

## 12- 18 Mai.2019

**Sierra Leone yw'r lle peryclaf yn y byd i roi genedigaeth. Mae 10 merch yn marw pob dydd wrth roi genedigaeth.**

**Gall ein rhoddion i Wythnos Cymorth Cristnogol eleni helpu i adeiladu mwy o glinigau iechyd, cyflenwi hyfforddiant iechyd a gwella glanweithdra, fel bod mamau a'u babanod yn cael byw bywyd hir a hapus.**

**Yn ystod yr wythnos bydd casgliad o dy i dy yn ogystal â-**

- **Gwasanaeth undebol dan arweiniad Mr Dewi Williams yn Y Fron am 10:00 Dydd Sul 12fed**
- **Bore Coffi yn Eirianfa am 10:00 Dydd Sadwrn 18fed**
- **Noson o Ganu Mawl - "Songs of Praise Sankey Evening" am 7.30pm Nos Sul y 19 o fai efo Côr Meibion Dinbych**

**Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.**


# "Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

## Atebion Ebrill 2019

**Ar Draws :**
1. Meicrosgop
9. Eryr
10. Cawl cennin
11. Trewen
12. Hosanna
15. Mynegai
16. Osian
17. Befo
18. Crud
19. Cemeg
21. Y Castell
22. Goleuad
24. Reidio
27. Seremonïol
28. Yfed
29. Noson Lawen

**I Lawr :**
2. Edau
3. Colera
4. Oregano
5. Gini
6. Pentwyn
7. Prawf gyrru
8. Brenhindod
12. Hyblygrwydd
13. Sofraniaeth
14. Asgell
15. Maneg
19. Cerosîn
20. Golomen
23. Egin ffa
25. Aros
26. Bore

# CROESAIR MAI 2019



**Ar Draws :**
9. Ad-drefniant llythrennau
10. Albym gan Steve Eaves
11. Portreadwr
12. Anfynych
13. Anifail sy'n codi argae ar draws afon
15. Cwmni neu grŵp o bobl
18. Pel-droediwr enwocaf ynys Madeira
19. Trwsgl neu lletchwith
21. Cadfridog o'r Eidal – a bisgedan!
24. OK! (2,3)
25. Ceffyl benyw
27. Diflanodd hwn gyda dyfodiad prosesydd geiriau
29. Heb ei debyg
30. g 19 i lawr

**I Lawr :**
1. Meddygaeth gofal plant
2. Adeiladwr â cherrig (4,4)
3. Caled ond hawdd ei dorri
4. Gwisgo colur
5. Bochio am allan
6. Merched hon fu'n dinistrio clwydi
7. Sŵn ci
8. Tarth
14. Un o gymeriadau Miri Mawr
16. Adnabyddus 17. Ystyrlon
19. (a 30 ar draws, 8,1,6) Dwy ynys, un wlad, yn y Caribî
20. Darllediad llun a sain
22. Cyfarwyddiadau coginio
23. Papur sy'n troi lliw gydag asis neu alcali
25. Cysurus
26. Anesmwyth
28. Oddi tanodd

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar



Chris Lees oedd siaradwr gwadd ein darlith ym mis Ebrill. Mae Chris yn nofiwr tanddwr profiadol ac yn 1998 bu'n nofio mewn bae yn agos i Ynysoedd Hallaniyat, ger arfordir deheuol Oman. Amcan y fenter oedd archwilio gweddillion llong y City of Winchester a suddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914. Roedd taid Chris, Alan Lees, yn Swyddog Radio ifanc ar y llong a chadwodd ddyddiadur manwl iawn o'r cyfnod. Roedd y City of Winchester ar ei ffordd adre o Calcutta yng Ngorffennaf 1914, yn cario llwyth o de, pan dderbyniodd neges o'r Llywodraeth i ddweud y dylai ddiffodd ei golau a mynd i'r porthladd Prydeinig agosaf, oherwydd cychwyn rhyfela. Cyn llwyddo i wneud hyn, cipiwyd y llong gan long Almeinig y Königsberg a'i suddo, ar ôl trosglwyddo'r teithwyr a'r cargo. Rhyddhawyd Alan Lees i ddwylo cyfeillgar a llwyddodd i gyrraedd gartref. Yn 1998 cafodd Chris gyfle i ymuno â thîm oedd yn mynd i ymweld â'r llong ar waelod y môr, gan wireddu breuddwyd oes iddo. Yr unig beth roedden nhw'n medru ei adnabod fel rhan o long, ar ôl yr holl flynyddoedd, oedd y rheiliau, a photel gwrw a welir yn y llun, ond mae'r gweddillion yn gartref i gwrel ac algâu bendigedig erbyn hyn. Buon nhw'n aros mewn pentref ar un o'r ynysoedd folcanig cyfagos ac yn cynnal sesiynau addysg i'r plant. Erbyn hyn mae'r ardal wedi cael ei dynodi yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn cael ei hamddiffyn.





Mae Gwefr heb Wifrau a Phopeth Cymraeg yn cefnogi ymgais Dinbych yn Blodeuo yng nghystadleuaeth Cymru yn ei Blodau ac wedi tacluso'r 'ardd' wrth y brif fynedfa!



Bu nifer o grwpiau yn ymweld â'r Amgueddfa yn ddiweddar. Daeth dosbarth Astudiaethau'r Cyfryngau o Goleg Cambria, Llaneurgain, i dreulio'r prynhawn yn astudio'r casgliad. Daeth grŵp Glannau Merswy a Gorllewin Swydd Gaer y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg i wrando ar gyflwyniad i'r Amgueddfa ar brynhawn arall. Roedden nhw wrth eu boddau. A bu David yn siarad am Sefton Delmer efo Clwb Rotary Dinbych ym Melin Brwcws.







Gwelir lluniau arddangosyn diweddaraf casgliad Gwefr heb Wifrau, sef Radio Transistor Cludadwy o 1956 gyda'i gas lledr gwreidddiol. Dyma un o'r radios transistor cynnar, a wnaethpwyd gan RCA Victor yn Efrog Newydd ac mae'n cynnwys pedwar transistor. Y Regency TR1 oedd y radio transistor cyntaf a chynhyrchwyd hwnnw yn UDA yn 1954. Gwerthwyd 400,000 ohonynt yn y flwyddyn gyntaf. Roedd perfformiad y radio yn wael, ond roedd yn gychwyn i'r chwyldro transistor a arweiniodd at y byd technolegol rydym yn byw ynddo heddiw.

Bydd 'na ddwy ddarlith yn ein cyfres ar nos Wener am 19.00 cyn yr haf:
Mai 17eg, Sue Clark yn siarad am "Golygu a Thrin Ffotograffiaeth".
Mehefin 21ain, Mike Farnworth yn siarad am "Y Cymry yn Lerpwl".

Fel rhan o Ŵyl Ganol Haf Dinbych, byddwn hefyd yn cynnal:
Bore Coffi Haf a Stondin Blanhigion yn yr Amgueddfa, 01/06/19, 10.00-12.00.
Bore Crefftau i blant 6-12 oed, 01/06/19, 10.30-12.30. Cysylltwch â'r Amgueddfa i gadw lle: info@wirelessinwales.org.uk
Noson Gwis, 11/06/19, 19.00 – 21.00 – nodwch y dyddiad newydd!
Diwrnod Technegol Ymarferol i Deuluoedd, 15/06/19, 11.00-15.00.
Croeso cynnes i bawb.




TE YN Y GRUG


Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk

01745 816576

# Y Rhyfel Mawr a Dinbych



Y Maer Cynghorydd Cathrine Jones yn rhannu'r llyfrau iYsgol Uwchradd Dinbych




FEL rhan o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn Ninbych er mwyn coffáu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, yn ogystal â digwyddiadau eraill, penderfynwyd y dylid cynhyrchu llyfr.

Roedd hyn er budd pobl ifanc yr ardal gan fwyaf er mwyn cynnig cipolwg iddyn nhw o sut bu i'r rhyfel effeithio ar eu tref.

Bu i Grwp Digwyddiadau Dinbych, o dan arweiniad y Faeres Catherine Jones, gomisiynu Grwp Archif Cymunedol Dinbych i gyflawni'r gwaith gyda help cyfran o'r grant y bu iddyn nhw ei dderbyn gan Gronfa'r Loteri Treftadaeth.

Diben y llyfr – "Y Rhyfel Mawr a Dinbych – Amser o Newid" – oedd ysgogi pobl ifanc i ymchwilio ymhellach i effeithiau'r rhyfel ar Ddinbych.

Bu i'r llyfr hefyd osod sawl cwestiwn i'r bobl ifanc eu hystyried ynghylch sut bu i'r rhyfel newid bywydau pobl a'r ardal roedden nhw'n byw ynddi.

Caiff y llyfrau eu rhoddi i ddechrau i ysgolion a grwpiau cymunedol eraill a bydd y rhai sy'n weddill ar gael i drigolion Dinbych.

Dyma oedd cyhoeddiad cyntaf Grwp Archif Cymunedol Dinbych ac fe'i cynhyrchwyd yn defnyddio'r holl ddeunyddiau wedi eu benthyg a'u rhoddi i'r grwp yn ystod y deng mlynedd diwethaf gan gynnwys lluniau, llyfrau, gwybodaeth a straeon, taflenni, ffilmiau a sain.

# LLYFRGELL DINBYCH

Wedi 8 mlynedd fel rheolwr Llyfrgell Dinbych a 23 mlynedd fel rheolwr Llyfrgell Rhuthun mae cyfnod Llinos Davies wedi dod i ben wrth iddi benderfynu dilyn trywydd newydd. Daeth criw mawr o gydweithwyr o ddoe a heddiw a ffrindiau at eu gilydd i ddiolch i Llinos am ei hymroddiad a'i gwasanaeth i'r fro, ac i ddymuno yn dda iddi i'r dyfodol. I olynu Llinos fel llyfrgellydd y ddwy lyfrgell, 'rydym yn ffodus iawn cael croesawu Meira Jones atom, hithau yn dychwelyd i lyfrgell Dinbych ar ôl cyfnod o reoli llyfrgelloedd Llanelwy a Rhuddlan am 2 flynedd. Dymunwn yn dda i Meira yn ei swydd newydd. Yn y llun gwelir Llinos a Meira gyda staff cyfredol Llyfrgell Dinbych.



Llinos a Meira cefn chwith gyda staff cyfredol Llyfrgell Dinbych



Meira Jones, llyfrgellydd newydd Llyfrgell Dinbych



## Newyddion Ysgol Glan

Yn dilyn gwaith paratoi brwd Blwyddyn 12 a 13 fe gawsom ein Eisteddfod Ysgol cyntaf ers symud i'r adeilad nwydd.

Eleni, roedd bwrlwm heintus wrth i Flwyddyn 12 a 13 arwain Blynyddoedd 7 ac 8 mewn amrywiaeth o gystadlaethau megis...sgets, creu sgwigl, ac unawd gyfoes. Does dim dwy waith mai uchafbwynt y diwrnod oedd y Corau Llys. Roedd y llwyfan yn gorlifo efo wynebau awyddus yn morio canu!

Yn wahanol i'r arfer roedd y neuadd wedi ei haddurno gyda baneri a oedd wedi eu creu gan Flwyddyn 7 ac 8 mewn gweithdy anffurfiol efo Blwyddyn 13 a 12 yn yr ardd y bore hwnnw. Roedden nhw yn arbennig a cyn gosod y naws yn wych.

Agwedd arall o fewn yr Eisteddfod oedd y gwaith roedd blwyddyn 11,12,13 Celf yn ei wneud yn y Neuadd Chwaraeon yn ystod y prynhawn. Eu sialens oedd darlunio portreadau ( llawrydd neu gyfrifiadurol) o aelodau penodol o staff. Roedd ansawdd y portreadau yn arbennig iawn ac yn arddangos y ddawn sydd gan y disgyblion.

Braint oedd cael Mrs Bethan Cartwright yn beirniadu ar y cyd efo Jade Davies, cyn ddisgybl sydd bellach yn Seren yn Y West End! Dyna ysbrydoliaeth i'r disgyblion presennol.

Yn goron ar y cyfan fe gawsom berfformiad anhygoel gan fand y staff ' Y Di - Enw' - Roedden nhw yn wych!

Ac fe'n synwyd gan eu lleisiau a'u dawn cerddorol. Candelas ac Yws Gwynedd - gwyliwch eich hunain!

Fel rhan o'n dathliadau i ymfalchio ein Cymreictod fe fu Mr Phormula (Ed Holden) yma hefyd yn perfformio ar gyfer blwyddyn 9 ac 11. Fe sgwrsiodd Ed gyda'r disgyblion am ei daith fel perfformiwr a phwysigrwydd y Gymraeg iddo ef. Roedd yn sgwrs a fyddai'n agor meddyliau rhai disgyblion i'r hyn sydd yn bosib!

Edrychwn ymlaen i weld sut y byddwn yn dathlu Gwyl Dewi y flwyddyn nesaf!

***Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Sir Ddinbych:***

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir yn ddiweddar. Braf gweld talent Ysgol Glan Clwyd ar y llwyfan. Pob lwc i bawb ohonoch sydd yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol ym Mae Caerdydd ymhen 6 wythnos.

Unawd Bechgyn Bl 7 – 9: 2il Rhydian Owen
Unawd Merched Bl 10 a dan 19: 2il Mali Elwy Williams, 3ydd Erin Swyn Williams
Unawd Bechgyn Bl 10 a dan 19: 1af Owain John Jones, 2il Dylan Sandland
Deuawd Bl 10 a dan 19: 1af Erin Davies a Siwan Williams, 2il James Taylor a Dylan Sandland
Alaw Werin Bl 7, 8 a 9: 2il Rhydian Owen
Alaw Werin Bl 10 a dan 19: 1af Owain John Jones, 2il Mali Elwy Williams, 3ydd Erin Swyn Williams
Unawd Offer Taro Bl 7 – 9: 1af Evan Peters
Unawd Chwythbrennau Bl 10 a dan 19: 1af Elliott Maitland Davies
Unawd Pres Bl 10 a dan 19: 2il Taliesin Liston-Smith
Unawd Piano Bl 10 a dan 19: 2il Dylan Peters
Deuawd Offerynnol Bl 13 a iau: 1af Dylan Peters a Carwyn Williams
Ensembl Bl 10 a dan 19 2il Parti Glan Clwyd
Unawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19: 1af Owain John Jones, 2il Mali Elwy Williams
Llefaru Unigol Bl 7 – 9: 1af Jac Williams
Llefaru Unigol Bl 10 a dan 19: 1af Mali Elwy Williams, 2il Owain John Jones, 3ydd Mali Ellis
Monolog Bl 10 a dan 19: 1af Mali Elwy Williams
Unawd allan o Sioe Gerdd Bl 10 a dan 19: 1af Mali Elwy Williams, 2il Erin Swyn Williams, 3ydd Erin Davies

**Llongyfarchiadau** anferth i dim peldroed merched dan 13oed Ysgol Glan Clwyd am gyrraedd ffeinal Cwpan Cymdeithas Peldroed Ysgolion Cymru ar ol curo Ysgol Bro Teifi 1 -0. Pob lwc!

**Rygbi merched.** Bu nifer o ddigwyddiadau yn ddiweddar dan arweinyddiaeth AlexJones, ein Swyddog Rygbi. Bu genod blwyddyn 9 a 10 ennill y plât gan guro yn y ffeinal 2 Cais i 1. Gem gwych a phawb wedi chwarae yn arbennig. Sêr y dyfodol! Hefyd bu genod blwyddyn 7 a 8 yn cael hwyl ar y cae, gêm cyntaf i llawer.

**Llongyfarchiadau.** Yn dilyn treial yn ddiweddar mae Matthew Senior 8Y wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru fel aelod o'r tîm pêl droed dan 13.



Bu ymweliad gan Non Parry o'r grwp Eden i drafod ei phrofiadau o iechyd meddwl hefo rhai disgyblion o Gyngor yr Ysgol. Siaradodd Non yn onest ac mewn ffordd oedd yn hawdd i'r plant i'w ddeall ac am ei anhawsterau gyda iselder a gor bryder. Bu'r ymateb gan y disgyblion yn arbennig. Cawsant gyfle i holi cwestiynau o fewn y grwp a hefyd yn unigol ar ôl y sgwrs. Pwysleisiodd Non pa mor bwysig ydi siarad am deimladau annifyr a rhoddodd neges glir i'r disgyblion a myfyrwyr nad ydi iechyd meddwl yn rywbeth cywilyddus, ond fod o'n brofiad dynol mae pawb yn mynd drwyddo rhywdro neu gilydd.



# The Welsh Whisperer.



Cafwyd ymweliad gan y Welsh Whisperer i siarad amdan beth mae o yn wneud. Roedd o wedi dod i siarad hefo ni oherwydd roedd o eisiau dangos fod popeth yn gallu cael ei wneud, dim ots beth yw eich cefndir a dim ots lle rydych yn byw. Roedd o'n byw ar hyn o bryd yn ardal Dyffryn Ogwen, ond fod ei wreiddiau mewn pentref bychan cefn gwlad o'r enw Cwmfelinfychan. Roedd y Welsh Whisperer wedi dod i siarad hefo ni mwy amdan profiadau gwahanol roedd o wedi cael trwy ei fywyd erbyn hyn. Roedd o hefyd wedi canu i ni! Roedd rhan fwyaf o'r caneuon yn 'cheesy pop' ond roedd hyn yn ddal yn diddorol i clywed a'r caneuon i gyd yn '*catchy*'. Pwysleisiodd pwysigrwydd y profiadau gwahanol rydan ni yn eu cael wrth gyrraedd ein potential llawn, yn enwedig pryd rydan ni yr oed yma oherwydd rydan ni gyda fwy o siawns i benderfynnu beth rydan ni eisiau wneud a pa cyfleodd rydan ni yn eu cael yn enwedig wrth fod yn ddwy-ieithog. *Erin Hughes*

Aeth blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio Addysg Grefyddol ar daith gyda Ysgol Tryfan ym Mangor i'r Ganolfan Fwdhaidd ym Manceinion yn ddiweddar. Yn ystod yr ymweliad bu iddynt gyfarfod a Bwdydd wnaeth son am ei brofiadau o ymarfer y grefydd yn yr 21ain ganrif a hefyd sesiwn cwestiwn ac ateb ar gyfer y cwrs safon uwch. Cafodd y disgyblion gyfle i fyfyrio a dysgu am ddysgeidiaeth y grefydd a'i phwysigrwydd i'r gymuned Fwdhaidd ym Manceinion.

**Llongyfarchadau** i Ffion Jones (ein Cyfieithydd) a'r phartner ar enedigaeth merch fach o'r enw Marged Casi.

Roedd dydd Gwener olaf y tymor, yn ddiwrnod lle bu'r ysgol yn ffarwelio hefo Mr Dylan Jones (un o'n Pennaethiaid Cynorthwyol). Ar ôl dros16 o flynyddoedd yn Ysgol Glan Clwyd, mae o wedi cael swydd fel Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Dyffryn Owen ym Methesda. Pob dymuniad da i Mr Jones yn ei swydd newydd – ond peidiwch ac anghofio amdanom ni!



# Diwygio Cyfraith Ysgaru

Yn rhifyn mis Ebrill o'r Bigwn fe fûm yn trafod y posibilrwydd o newid yn y gyfraith a fyddai'n ei gwneud yn haws ysgaru.

Ar y 9fed o Ebrill 2019, fe gyhoeddodd y Llywodraeth y byddai Cyfreithiau Ysgaru yng Nghymru a Lloegr yn newid er mwyn galluogi parau priod i wahanu heb yr angen i roi bai. Y bwriad yw y byddai'r newid hwn yn lleihau tensiynau teuluol.

Cafodd y diwygiadau arfaethedig gefnogaeth gref gan gyfreithwyr blaenllaw, bargyfreithwyr ac academyddion. Bydd deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno i'r Senedd i ddiweddaru ein cyfraith ysgaru sydd wedi bod mewn bodolaeth ers 50 mlynedd.

Honnir gan arbenigwyr bod y gyfraith gyfredol yn gwaethygu'r gwrthdaro, yn lleihau'r potensial i gymodi ac yn creu niwed i blant y pâr sydd wedi eu dal rhwng y ddau.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cyfiawnder David Gauke "Mae gelyniaeth a gwrthdaro rhwng rhieni yn gadael eu marc ar blant ac fe all niweidio eu cyfleoedd mewn bywyd". "Tra y byddwn bob amser yn cynnal sefydliad y briodas, ni all fod yn iawn fod ein cyfraith hen ffasiwn yn creu neu'n cynyddu gwrthdaro rhwng cyplau sy'n ysgaru."

Mae'r gyfraith bresennol yn gorfodi cyplau i ddangos bod eu priodas yn anorchfygol ac yn gofyn am dystiolaeth o "ymddygiad afresymol" neu flynyddoedd o wahanu, neu odineb.

Mae hyn yn wir hyd yn oed pan fydd cwpl yn unfryd ar y penderfyniad i wahanu.

Credai David Gauke fod y system bresennol yn "gêm feio ddiangen" gan addo ei orffen unwaith ac am byth yn ôl datganiad diweddar.

Gallai cyfraith newydd ddisodli'r gofyniad am dystiolaeth gyda datganiad o doriad anorchfygol, dileu gallu un o'r partïon i herio'r ysgariad, a chyflwyno'r posibilrwydd o gais ar y cyd am ysgariad.

"Mae'r newid mawr hwn i'r gyfraith yn newyddion da i gyplau sy'n ysgaru ac yn arbennig i unrhyw blant dan sylw," meddai Aidan Jones, Prif Swyddog Gweithredol yr elusen cefnogi perthynas Resolution.

"Mae'r system rhoi bai ar un o'r partïon mewn ysgariad bellach yn hen-ffasiwn, mae'r gofyniad i gyplau sy'n gwahanu rhoi bai yn aml yn arwain at fwy o ddrwgdeimlad rhyngddynt ac yn aml iawn yn ei gwneud yn anoddach i gynbartneriaid ddatblygu perthynas gadarnhaol fel cyd-rieni".

Mae'r diwygiadau hyn yn cadw'r hyn sy'n gweithio'n dda yn y gyfraith ysgariad cyfredol ac yn dileu'r hyn sydd yn achosi'r anawsterau diangen gan arwain at wahaniad trefnus, cyfreithiol. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno cyn gynted ag y bydd amser Seneddol yn caniatáu. Gyda mater prydael (Brexit) eisoes i gael ei ddatrys, efallai na fydd y gyfraith newydd ar y Llyfr Statud am amser!

Lois Griffiths

Cyfreithwraig dan Hyfforddiant Guthrie Jones & Jones

DBP
HOME IMPROVEMENTS
Improving Homes Since 2004




**DBP HOME IMPROVEMENTS LTD**
*Ystad Ddiwydiannol Colomendy*
*Dinbych*
*LL16 5TA*
*Tel: 01745 818849*
*Fax: 01745 817267*
*enquiry@dbpltd.co.uk*
*www.dbpltd.co.uk*

Ystafelloedd Arddangos ar Agor Chwe Diwrnod yr Wythnos

# AM GAEL YSTAFELL NEWYDD?







YDY'CH YSTAFELL WYDR YN HEN AC WEDI BLINO?

YDY HI'N TEIMLO'N OER?

YDYCH CHI'N COLLI LLAWER O WRES DRWY EICH TO PRESENNOL?

HOFFECH CHI EI GWNEUD YN FWY CYDNAWS Â'CH TŶ CHI?

Cyllid ar gael







***Ffenestri, drysau, ystafelloedd gwydr, "Roofline" a llawer mwy***

**Galwch & gofynnwch am Mike Hargraves ar 01745 818849 neu ar ei ffôn symudol**

**07778 752822**

I GAEL PRIS YN RHAD AC AM DDIM, HEB RWYMEDIGAETH.

NEU GALWCH I MEWN I WELD MIKE YN EIN YSTAFELL ARDDANGOS

# Y Gwaith a ganmola'r Gweithiwr

Tua mis yn ôl tra'n pori drwy dudalennau'r Daily Post tarewais ar erthygl yn cymharu doniau David Lloyd George a Winston Churchill, y ddau yn eu tro wedi bod yn brif weinidogion llwyddiannus yn ystod rhyfel byd. Nid fy mod innau am fentro i'r ddadl, ond yr hyn ddaeth i'm meddwl i oedd fy mod innau yn 2001, sef blwyddyn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, ar gais Cyngor y Dref ar y pryd, wedi cyhoeddi llyfryn yn rhestru enwogion Dinbych dros y canrifoedd. Credwch fi neu beidio, 'doedd dim llai na 88 enw wedi yn crybwyll, ac yn sicr yr oedd nifer o rai eraill y gallaf fod wedi eu cynnwys. Yr enwau amlycaf oedd rheini oedd a'u gorchestion wedi denu sylw y cyfryngau, rhai fel H.M. Stanley, y fferiwr ddaeth o hyd i David Livingstone, Thomas Gee oedd mor amlwg yn myd cyhoeddusrwydd a gwleidyddiaeth, Twm o'r Nant, T Gwynn Jones, Kate Roberts a Gwilym R Jones ymhlith nifer sylweddol o lenorion; Joseph Parry (Bardd Alaw) a Osian Ellis o fyd cerddoriaeth, Syr Williams Edwards, Prif Arolygydd Ysgolion Cymru a Dr Taylor Jones, Athro Athroniaeth Foesol ym Mhrifysgol Glasgow i enwi dim ond dau ysgolhaig. O'r aelodau seneddol, Syr D.S. Davies, mab-yng-nghyfraith Thomas Gee a gyfrannodd y tir lle'r adeiladwyd Ysbyty Llangwyfan, Ieuan Wyn Jones a'r Arglwydd Emlyn Hooson, Colomendy gynt; a beth am John Williams (Glanmor) ein hanesydd lleol, ac wrth gwrs Wmffra Llwyd, y mapiwr a gynhyrchodd y map cyntaf o Gymru a gafodd ei argraffu, a Huw Myddleton, ddaeth a chyflenwad dŵr glân i Lundain. Mae'r rhestr yn faith?

Wrth ystyried y rhai sydd wedi eu coffau gan enwi 'stadau neu hyd yn oed terasau ar eu holau – a rhaid eithrio Lôn Llewelyn, Filau Gladstone, Teras Garfield, Parc Mytton ac yn y blaen, gan nad ydynt yn enedigol o'r dref. Dim ond ychydig fel Bryn Stanley, Erw Salisbury a rhodfa Miltwn sy'n coffau enwogion gwir leol. Yn ôl pob deall 'dyw'r enw Llys Catrin ddim yn coffau Catrin o Ferain ond enw merch yr adeiladydd.

Yn gwbl haeddianol, mae gorchestion nifer o'm cyd-drefwyr wedi eu nodi gyda phlaciau ar waliau eu cartrefi – Thomas Jones y Diwynydd ar Riw'r Bigwn a Williams Williams (Caledfryn) ar Stryd y Bont.

'Dyw'r cyhoeddusrwydd ddim bob amser yn dilyn gweithred, neu yn aml cyfres o weithredoedd, sydd yn cael eu cyflawni yn y dirgel.

Gallaf feddwl, yma yn Ninbych, fel ym mhob man arall decini, am nifer sydd wedi cyfrannu'n sylweddol yn fy amser i, i fywyd ein cymdeithas heb dderbyn (a heb ddisgwyl) llawer o glod. Cymerwch er engraifft y diweddar Barch John Morris Jones, gweinidog gyda'r Annibynwyr, Maer y Dref, pwyllgorwr, Ynad Heddwch, un oedd yn weithgar bron ymhob agwedd o fywyd Dinbych; J.L. Jones gollodd ei fab Philip yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac oedd mor ddiwyd yn ei waith gwirfoddol yn yr hen Ystafelloedd Darllen ar Stryd y Bont; W.O. Jones ac Emrys Williams a'i deulu, a wnaeth gymaint dros y Sioe Flodau; Mr a Mrs Moses Parry fu am flynyddoedd mor gefnogol i'r Clwb Criced ac i'r Eglwys Wen. Mae'r rhestr yn faith, ac yn wir nid wyf wedi cynnwys enwau unigolion arbennig yr oes hon, fel Gwyneth Kensler, ein Cynghorydd Sirol, un sydd gydag eraill, yn wyneb nifer o anawsterau, wedi llwyddo i sefydlu ac i gynnal Theatr Twm o'r Nant a'r Amgueddfa; hefyd Dilwyn Jones sydd mor gefnogol i'r Gymdeithas Gymraeg a Chapel Y Brwcws; Nerys Ann Roberts, hithau mor weithgar gyda nifer o sefydliadau a Doris Roberts sy'n cymorthwyo ac yn ymweld â chymaint o'r anghenus yn ein plith.

Yn ôl yr adroddiadau yn y wasg leol, dwy o'r claddedigaethau mwyaf a welwyd yn y dref erioed oedd rhai Thomas Gee a'r Dr Evan Pierce. Tybed os yw hyn yn dystiolaeth o gyfraniad unigolyn i'w gymdeithas? Mae cofgolofn Dr Pierce yn amlwg iawn ar Stryd y Dyffryn ond y goel gyffredin yw mai ef ei hunan oedd yn amlwg am ariannu'r fenter.

Na, yn sicr yr oedd, ac y mae, dros y canrifoedd, nifer sylweddol sydd wedi gweithio'n gydwybodol heb ddisgwyl unrhyw gydnabyddiaeth am eu hymdrechion. Heddwch i'w llwch ddywedwn i. Tasg amhosibl yw dewis un enw o'r nifer sydd ar y rhestr.

Sut felly mae dewis rhwng Lloyd George a Winston Churchill?

*R M (Bobi) Owen*


sir ddinbych
denbighshire
CYMRAEG

Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.

Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych



MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# So...Smart....z..z..z

Roeddwn i'n arfer credu mai ni'r Cymry Cymraeg oedd - yn ein diogi - yn britho'n brawddegau gyda'r gair bach **so** fel na phetai'r gair **felly** yn bod.

Ond a ydych chi wedi sylwi ar y defnydd cynyddol ohono yn y Saesneg, yn arbennig ymhlith y garfan Costa "coffee to go"? Am orchest!

Ar un adeg roeddwn i o'r farn mai techneg oedd o gan wleidyddion er mwyn sicrhau ychydig mwy o amser cyn ateb cwestiwn anodd.

Wel, dydyn nhw bellach ddim yn ateb unrhyw gwestiwn ar ei ben, beth bynnag, dim ond mynegi polisi eu plaid am y canfed tro ar yr un gwynt mewn brawddeg hirfaith a hynod o ddiflas gan argyhoeddi neb.

Yn wir, oni fyddai'n well i'r gohebyddion dd'eud wrthyn nhw yn syml, "Dyma'r meic i chi" a gadael iddyn nhw gyflwyno'u darllediad pleidiol?

Ond dwi'n crwydro rŵan.

Na, yn hytrach sôn rydwi am y bobl hynny sydd yn ymateb i gwestiynau am eu gwaith a'u diddordebau gyda'r **so** bondigrybwyll.

" Beth ydy'ch diddordebau chi, John?

"**So**.... dwi'n hoffi chwaraeon o bob math a mynd i gigs. **So**.... dwi'n fyfyriwr ar fy mlwyddyn olaf yn y brifysgol."

Disgwyl ydw i am i rywun roi **you know** ar ôl y **so.** Bydd cwpan fy ngofid yn llawn wedyn......chi'n gw'bod o b'le dwi'n dod."

..........................................................

Oes gennych chi un?

Fe gawsom ni un ddeunaw mis yn ôl. Wnaethom ni ddim gofyn amdano, ond roedden ni'n cael ein plagio i gymryd un er mwyn camu ymlaen i'r byd modern.

Roedd am ostwng ein biliau am danwydd yn sylweddol, medden nhw.

Doedd yna ddim modd gwrthod y fath gynnig.

Pwy allai wrthod y fath gynnig?

Ia, sôn ydw i am y mesuryddion trydan a nwy – y **smart meters** bondigrybwyll.

Fe ddaeth yna rywun acw un p'nawn rhynllyd o Ragfyr i'w osod. Roedd yn rhaid gwneud peth o'r gwaith tu allan i'r tŷ ynghanol cawod o eira gyda'r gwynt dwyreiniol yn brathu'n filain.

Mae'r mesurydd yn gweithio'n fendigedig. Golau gwyrdd yn dangos ei fod o ar waith, hwnnw yn troi'n oren pan fo'r defnydd o danwydd yn codi'n gymedrol ac yna'n troi'n goch pan fo'r defnydd yn drwm.

Mae o'n dangos i chi hefyd sawl ceiniog a wariwyd wrth gyflawni unrhyw un o'r gorchwylion yn y cartref, megis berwi tegell neu ddefnyddio'r peiriant golchi.

Taclus iawn yn wir. Ond faint o arian mae rhywun yn ei arbed?

Dim hyd y gwela' i.

Dydy rhywun ddim yn diffodd y gawod am ei fod y ofni bod y golau coch wedi bod yn dangos am bump yn hytrach na phedwar munud, mwy nag ydy o'n troi'r gwres canolog i lawr bob yn ail eiliad.

Yn wir, peryglon rydwi'n ei weld ynghlwm â'r holl beth.

Onid y perygl pennaf ydy i'r oedrannus neu'r rhai llai ffodus mewn cymdeithas oddef oerfel erchyll ambell ddiwrnod am iddyn nhw wario gormod arno yn ystod cyfnod o dywydd garw?

Un agwedd o'r holl sioe sy'n ddirgelwch imi ydy' sut rydan ni yn y tŷ acw - yn ôl y mesurydd – yn defnyddio cymaint o danwydd dros nos. Hyd yn oed pan rydwi'n anaml iawn codi yn gynnar iawn – cyn defnyddio unrhyw danwydd o gwbl – mae yna oddeutu 60 ceiniog arno.

Ai'r tariff dyddiol ydy hwn neu na oes gennym ni fyddin o dylwyth teg yn gweithio acw ar y shifft nos? Neu ai ni sy'n talu am oleuo'r stryd acw dros nos?

Efallai y gellwch chi fy ngoleuo ar y mater.

Yr unig fantais o gael y mesurydd hwn hyd y gwela' i ydy' nad oes yna neb yn gorfod galw acw i ddarllen y mesurydd. A phwy sydd ar ei ennill o hynny?

.........................................................

Ydach chi'n enedigol o Sir Gaernarfon?

Os ydy'ch ateb yn gadarnhaol, mae'n ymddangos imi fod yna siawns uchel na fedrwch chi ynganu'r llythyren **z.**

Popeth yn iawn pan ydach chi'n d'eud eich bod chi wedi bod yn Sŵ Bae Colwyn, ond mi ellwch chi fod yn destun sbort wrth geisio cyfeirio at **Zoe, jazz, Zaïre** neu **zap.**

Am ryw reswm mae'r llythyren yn achosi trafferthion inni. Daw allan bob tro fel **s.** Fedrwn ni a fagwyd yn yr hen sir yn ein byw ei d'eud hi'n gywir.

Dydy pobl Dyffryn Clwyd, fe ymddengys, ddim yn cael unrhyw drafferth, gyda hi. Ymhle mae'r ffin ddaearyddol rhwng yr **s** a'r **z**?

A oes yna destun ar gyfer eitem ar raglen Aled Hughes yn y fan yna?

Cofiwch chi mae yna bobl o Glwyd – na nid Clywid ydy'r gair chi gyflwynwyr BBC Wales - a gaiff drafferthion yr un modd gyda'r llythyren **rh** gan gyfeirio at **Ryl** a **Rys** yn hytrach na'r **Rhyl a Rhys.**

Yn bersonol, fe fyddwn i'n dileu'r ddwy lythyren o'r Gymraeg - pawb â'i fys lle bo'i ddolur.

Onid ydy iaith yn beth difyr?

**Stan Lyall**


## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda
ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

SIOP CLWYD

33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431



Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RH | C | H | S | P | T | FF | G | M | L | W | M | DD | L | E | PH | H | RH | C | Y | O | A | M | J | FF | L | P | B | P | O |
| D | W | L | RH | I | FF | P | H | I | R | FF | I | F | P | RH | M | B | A | P | F | Y | L | J | DD | E | FF | N | G | W | D |
| C | O | F | Y | O | S | O | R | A | J | A | L | P | T | W | C | J | RH | NG | NG | R | P | A | B | N | E | E | N | W | L |
| RH | P | CH | T | CH | C | E | S | CH | H | D | P | RH | D | FF | Y | R | FF | B | RH | LL | W | A | N | FF | P | H | PH | U | E |
| G | LL | L | T | O | B | L | N | FF | FF | W | G | N | N | FF | RH | A | I | E | M | E | R | E | J | PH | J | E | W | E | I |
| T | TH | R | B | D | Y | N | O | E | O | I | W | NG | O | G | PH | N | O | L | M | NG | L | E | O | E | D | M | E | C | C |
| Y | S | G | L | P | M | S | C | W | G | P | B | DD | M | NG | L | L | G | T | P | T | N | P | U | TH | J | E | D | B | E |
| R | U | TH | M | R | P | Y | D | R | LL | I | J | U | O | CH | E | S | CH | P | M | H | B | NG | R | U | Y | I | J | Y | S |
| NG | W | O | W | D | LL | A | N | O | A | S | L | Y | L | E | F | S | M | H | B | N | Y | C | A | R | I | A | FF | H | E |
| RH | E | N | S | Y | N | T | D | TH | R | FF | L | CH | O | B | I | U | S | A | B | NG | G | NG | W | W | CH | F | D | T | CH |
| P | Y | FF | R | R | R | S | P | I | TH | RH | TH | N | S | N | T | Y | T | F | DD | TH | H | J | O | M | O | J | M | R | Y |
| F | M | H | A | A | T | T | PH | D | A | LL | D | RH | S | DD | I | J | L | S | L | S | U | F | E | N | FF | W | J | R | J |
| CH | B | L | DD | CH | B | N | TH | B | P | RH | S | O | M | A | C | RH | RH | A | T | W | L | PH | P | N | E | L | A | M | O |
| L | A | LL | T | O | U | O | C | RH | W | H | E | I | U | TH | U | H | S | E | E | B | S | U | D | O | X | E | L | U | S |
| G | TH | U | DD | M | U | O | W | O | Y | B | D | B | I | F | S | W | Y | H | LL | P | W | T | I | F | R | L | D | H | U |
| PH | F | U | E | Y | LL | A | M | LL | H | O | F | L | I | N | PH | A | T | RH | L | R | L | S | L | P | D | M | L | A | A |
| RH | H | R | DD | Y | D | A | J | P | FF | FF | H | F | I | O | R | PH | R | R | C | E | G | O | Y | LL | A | LL | S | N | A |
| U | I | G | TH | O | M | R | I | A | C | L | A | I | PH | N | N | P | L | S | I | NG | G | T | RH | F | G | TH | D | A | B |
| N | O | R | R | A | M | C | RH | N | T | E | LL | T | R | Y | FF | E | W | N | E | N | LL | B | RH | C | J | A | PH | O | F |
| TH | C | G | CH | W | R | T | P | I | RH | D | NG | DD | E | D | O | T | A | S | Y | W | R | FF | E | C | W | N | A | NG | Y |
| NG | I | O | J | I | TH | J | H | PH | D | Y | C | NG | TH | J | E | D | CH | F | Y | M | F | S | B | I | A | R | D | L | Y |
| I | F | F | C | B | S | E | O | PH | B | D | C | G | S | F | A | W | M | PH | J | N | FF | U | TH | L | E | O | Y | FF | R |
| PH | I | D | RH | B | C | I | G | J | N | FF | F | S | E | PH | Y | R | FF | FF | PH | CH | D | TH | M | J | U | U | A | C | P |
| Y | E | NG | G | M | A | I | W | E | S | H | FF | A | LL | O | W | D | LL | I | B | D | T | B | C | J | FF | PH | J | NG | TH |
| CH | NG | C | D | FF | T | J | RH | N | R | P | H | U | CH | N | F | FF | NG | B | CH | P | Y | S | DD | L | O | C | LL | P | O |
| A | N | FF | PH | S | P | NG | D | G | Y | P | L | LL | D | I | LL | R | B | W | T | U | LL | S | FF | J | RH | N | O | O | C |
| W | U | W | H | S | O | LL | F | CH | G | RH | CH | J | N | RH | M | E | PH | E | B | G | NG | Y | TH | G | R | O | A | TH | LL |
| A | Y | LL | G | LL | A | Y | H | G | S | C | M | A | A | S | N | E | F | NG | A | P | L | FF | H | W | J | G | CH | U | CH |
| D | G | W | F | G | Y | O | DD | A | PH | C | NG | U | F | Y | A | I | E | O | I | I | FF | P | PH | NG | Y | D | J | O | B |
| I | P | Y | DD | NG | DD | H | Y | U | R | R | J | T | T | S | I | O | C | H | G | C | E | I | S | T | C | H | L | DD | H |

**Chwilair Enwau'r llyfrau'r Hen Destament**

GENESIS
NUMERI
RUTH
ESRA
JOB
PREGETHWR
JEREMEIA
ESECIEL
JOEL
MICHA
EXODUS
JOSUA
SAMUEL
NEHEMEIA
SALMAU
SOLOMON
JONA
DANIEL
AMOS
NAHUM
LEFITICUS
BARNWR
CRONICL
ESTHER
DIARHEBION
ESEIA
GALARNAD
HOSEA
OBADEIA


siop siocled
01745 814864 dinbych

Siocled o wlad y Belt
Siocled cymraeg o Bala
Pizza siocled - Te, coffi a sgwrs
Cinio ysgafn - Cacenau blasus a sgons Annie

YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN


Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd
**Mark John Young**
Dinbych Isaf - Annibynnol
C/O 13 Stryd y Dyffryn, Dinbych
E:mark.young@denbighshire.gov.uk
F:01745 814864 S:07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141

repairs@evansautoclinic.com

Daniel Morris

**CIGYDD LLEOL**
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk

**124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS**

# DATHLU DINBYCH 175

Wrth i'r clwb criced lleol ddathlu 175 mlynedd o'i fodolaeth, trown ein sylw y tro hwn at dridegau'r ganrif ddiwethaf.

Ar derfyn y tymor ym 1937 dywediwyd yn yr adroddiad blynyddol i'r clwb gael tymor eithaf llwyddiannus – chwarae 19 gêm, ennill 6 gêm, colli 9 a'r pedair gêm arall yn gorffen yn gyfartal.

Y mae criced yn gêm lle rhoddwyd pwyslais arbennig erioed ar ystadegau, a chaiff hynny ei gadarnhau yn ail baragraff yr adroddiad lle nodwyd i 1765 o rediadau gael eu sgorio yn ystod y tymor a hynny gan golli 178 o wicedi.

Roedd hynny yn gyfystyr â 9.91 rhediad am bob wiced.

Nodwyd mai 1677 o rediadau a sgoriodd y gwrthwynebwyr gan golli 160 o wicedi, cyfartaledd o 10.48 ar gyfer pob wiced.

Ar wyth achlysur sgoriodd y tîm dros 100 o rediadau, pum gwaith yn unig y llwyddodd y gelyn i wneud hynny.

Uchafbwynt y tymor oedd sgorio 209 am 6 wiced yn erbyn Ysbyty Gogledd Cymru gyda buddugoliaeth yn dod yn y belawd olaf drwy gyfrwng dau ddaliad gwych gan R. Swayne.

Seren y tîm – fel y clywsom yn nhystiolaeth R. M Owen yn y rhifyn diwethaf – oedd O.H.Tordoff. Roedd o'n llwyddo i roi cychwyn cadarn i'r batiad gan sgorio cyfanswm o 276 ar gyfartaledd o 25.

Ei berfformiadau gorau oedd 57 heb fod allan yn erbyn Nantclwyd ac 81 heb fod allan yn erbyn Rhuthun.

Tordoff oedd ar ben rhestr y bowlwyr hefyd gan gymryd 37 wiced am 235 rhediad. Ei berfformiad gorau gyda'r bêl oedd 8 wiced am 30 rhediad yn erbyn Ysbyty Abergele. Roedd yr athro ysgol hwn yn dipyn o gricedwr!

Y mae tîm criced angen maeswyr o safon, ac ar ôl cyfnod sigledig ar ddechrau'r tymor fe wnaeth pethau wella i raddau helaeth yn yr adran hon.

Gwnaethpwyd y sylw na ellid, fodd bynnag, gweld cynnydd pellach yn safon y maesu oni cheid gwelliant yn safon y maes ei hun. Byddai gallu prynu peiriant torri glaswellt o gymorth mawr yn y cyswllt hwn, ychwanegwyd.

Byddai'r gwelliannau hyn hefyd yn gwneud y gêm yn fwy deniadol i'r rhai oedd yn dod i wylio'r clwb yn chwarae, meddid.

Trefnwyd ychydig o gemau ar gyfer yr ail dîm yn ystod mis Awst, ond hoffai awdur yr adroddiad pe ceid rhagor o gemau ar gyfer y bechgyn hyn.

" Os ydy Rhuthun yn gallu gwneud hyn, fe all Dinbych wneud yr un modd," ydy' byrdwn ei neges.

Diolchwyd i Mrs M.J. Parry am baratoi'r arlwyaeth ar gyfer y te ac am godi arian tuag at gronfa'r clwb drwy gynnal gwahanol weithgareddau.


Stori gyffelyb oedd hi yn hanes y clwb y tymor canlynol.

Dyma'r ystadegau:- chwarae 19 gêm, ennill 5, colli 11 a 3 gêm gyfartal.

Unwaith eto Tordoff oedd y seren ddisgleiriaf gan sgorio 252 o rediadau ar gyfartaledd o 36 a chipio 23 o wicedi am 103 o rediadau.

Wrth i'r bêl ledr daro'r pren helyg ar Sadyrnau pleserus yr haf hwnnw, a oedd llanciau ifainc Ffordd Ystrad yn ymwybodol bod yr Ail Ryfel Byd ar y gorwel?

**Stan Lyall (gyda diolch i R.M. Owen am gyfle i weld y dogfennau gwreiddiol)**




| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | | | | | 5 | |
| | 2 | | | 6 | 1 | | 8 | |
| 4 | | | 2 | | | 3 | | 9 |
| 9 | 7 | | | 8 | | 1 | | |
| 2 | | | 1 | | 9 | | | 5 |
| | | 3 | | 2 | | | 6 | 8 |
| 3 | | 8 | | | 2 | | | 4 |
| | 1 | | 4 | 9 | | | | |
| | 9 | | | | | 5 | | |

# Clwb Pel-droed Dinbych

Gorffennodd Dinbych eu gemau ar gyfer y tymor bythefnos ynghynt na thimau eraill y gynghrair felly maent yn ansicr ar hyn o bryd os fyddent yn cael eu darostwng o Gynghrair Huws Grau Cymru neu beidio.

Ar ôl buddugoliaeth wych o 3-1 yn ystod eu gem olaf yn erbyn Llanrhaeadr ym Mochnant, dyma safleoedd y timoedd ar waelod y gynghrair ar hyn o bryd:

Dinbych: Chwaraewyd 30 Pwyntiau 29

Penrhyn-coch: Chwaraewyd 29 Pwyntiau 29

Treffynnon: Chwaraewyd 28 Pwyntiau 26

Caergybi: Chwaraewyd 29 Pwyntiau 19 (wedi cael eu darostwng)

Mae gan Benrhyn-coch a Threffynnon wahaniaeth goliau gwell na Dinbych, felly mae angen i'r ddau dîm golli eu gemau olaf er mwyn i Ddinbych aros yn y gynghrair.

Yn ystod eu pum gêm olaf fe gollodd Dinbych o 2-1 yn erbyn Caergybi, colli yn erbyn Bwcle o 1-0, colli o 5-0 oddi cartref yn y Rhyl a cholli o 3-1 gartref yn erbyn Treffynnon. Gwelwyd perfformiad anhygoel yn ystod eu gem olaf gan y capten Mark Roberts wrth iddo sgorio tair gôl i Ddinbych i helpu iddynt gael y tri phwynt. Mae tynged y tîm bellach yn nwylo'r timoedd eraill.

Yn dilyn y gêm olaf, fe gyhoeddodd cyd-reolwr y tîm Matty Jones ei fod yn gadael ei rôl fel rheolwr ar ôl tymor wrth y llyw gyda Dewi Llion. Mae Dewi yn parhau fel rheolwr y Clwb ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gareth (Perry) Thomas wrth iddynt gynllunio ar gyfer y tymor nesaf.

Mae gan yr Ail Dîm dair gêm yn weddill i'w chwarae cyn diwedd y tymor. Maent ar hyn o bryd yn y drydydd safle yng Nghynghrair Ail Dîm Lockstock Cymru a dydyn nhw ddim wedi colli yn ystod y deg gêm ddiwethaf. Cawson nhw gêm gyfartal yn erbyn Llanrwst o 1-1 ble sgoriodd Andy Thomas gôl anhygoel. Dilynwyd hyn gyda buddugoliaeth o 4-2 yn Llanrug a gêm gyfartal o 1-1 yn erbyn Pwllheli ble sgoriodd Paul Williams y gôl bwysig.

Fe orffennodd tîm Denbigh Development eu gemau ychydig wythnosau yn ôl. Mae cynlluniau ar y gweill yn barod ar gyfer y tymor nesaf gyda Craig Morris yn edrych yn debygol o ddod yn rheolwr gyda chymorth y rheolwyr presennol, Dan Whitfield ac Andy Douglas.

Mae Noson Wobrwyo'r Clwb wedi ei drefnu ar gyfer nos Wener, Mai 10fed ym Mhlas Pigot am 7:30 y.h. Mae mynediad am ddim a bydd gwobrau'n cael eu cyflwyno i bob tîm wedi eu dewis gan y rheolwyr, y chwaraewyr a gan y cefnogwyr.

**Hysbysebion**

| | |
|---|---|
| 4cm x 4cm | £3.00 |
| 9cm x 4cm | £6.00 |
| 9cm x 7cm | £10.00 |
| ¼ tudalen | £15.00 |
| ½ tudalen | £25.00 |
| Tudalen Llawn | £50.00 |










# CLWB RYGBI DINBYCH

Wythnos yn union ar ôl y llifogydd mawr yn Nyffryn Conwy a adawodd Pant Carw fel llyn, roedd yn bosibl i Nant Conwy groesawu Tîm Cyntaf Dinbych i chwarae gêm gynghrair. Gyda chyflwr y cae yn rhyfeddol o dda, y tîm cartref, Pencampwyr Adran 1 y llynedd, gariodd y dydd o 53-15. Er i flaenwyr ifanc Dinbych berfformio'n arbennig yn y sgrym, profodd Nant Conwy yn llawer mwy corfforol a phrofiadol yn y chwarae agored. Er hynny, llwyddodd Dinbych i sgorio tri chais eu hunain, gan Tom Seddon, Gruff Roberts a Dan Lawrence. Daeth torf sylweddol i wylio'r ornest leol ar Faes Terry Bryer yn erbyn Rhuthun, oedd ar rediad hynod dda ar y pryd. Er i Ddinbych fynd ar y blaen yn fuan yn y gêm pan groesodd Aidyn Jones am y cyntaf o ddau gais i'r asgellwr, profodd yr ymwelwyr yn gryfach ym mhob agwedd o'r chwarae, gydag olwyr disglair y tîm cartref yn cicio llawer iawn o feddiant i ffwrdd, peth anghyffredin iawn y tymor hwn. Y sgôr terfynol oedd 34-10 i'r ymwelwyr.

Roedd y gêm dyngedfennol ym Mro Ffestiniog yn y fantol ym munudau ola'r gêm, gyda Dinbych ar y blaen o 27-20, ond y tîm cartref yn ymosod yn gryf. Pan gollodd Bro y meddiant, gwelodd y cefnwr ifanc Gruff Roberts ei gyfle i redeg 70 metr lawr yr asgell i sgorio dan y pyst i sicrhau pwynt bonws a buddugoliaeth o 37-20. Er i'r ddau dîm sgorio pedwar cais, gydag Aidyn Jones yn croesi ddwywaith i Ddinbych, yn ogystal â chais yr un i Aron Evans a Gruff, y prif wahaniaeth rhwng y ddau dîm oedd cicio Gruff (Lionel Messi Dinbych!) a lwyddodd gyda phob trosiad a dau gic gosb. Wythnos yn ddiweddarach sicrhawydd eu lle yn Adran 1 am dymor arall wrth guro'r ymwelwyr o'r Wyddgrug o 28-10, gyda chais yr un i Dafydd Jones, Robin Williams, Kieran Bonar a Tom Seddon.

Teithiodd yr Ail Dîm i chwarae yn erbyn Tîm Cyntaf Y Fflint sydd yn y drydedd safle yn Adran 3 a cholli o 50-0, cyn chwarae gartref yn erbyn Tîm Cyntaf Shotton. Enillodd y tîm hwn ddyrchafiad i Adran 1 y llynedd gyda Dinbych, ond am resymau dirgel a chymleth, penderfynwyd peidio â derbyn dyrchafiad, gan fod well ganddynt chwarae yn Adran 3! Dim rhyfedd felly i Shotton gael buddugoliaeth ysgubol o 65-7. Rhaid canmol ymroddiad bechgyn Dinbych dan amgylchiadau anodd, yn arbennig felly gan i'r gêm gael ei hatal am tua hanner awr yn dilyn anaf cas i'r bachwr Aeron Waller. Braf cael gwybod ei fod wedi cael dod adref o'r ysbyty mewn coler o gwmpas ei wddf, ond heb ddioddef anaf rhy ddifrifol, a diolch am hynny. Collwyd y gêm nesaf ym Mhorthaethwy o 10-0, cyn colli o 32-12 yn erbyn yr ymwelwyr o Ynys Môn, Ail Dîm Llangefni. Sgoriodd Dafydd Cernyw ac Alun Davies gais yr un i Ddinbych, gyda Neville Hughes yn cicio trosiad.

Llwyddodd yr Ieuenctid i guro Bro Ffestiniog mewn gêm gartref o 38-17. Sgoriodd Rowan Hughes hatric, gyda dau gais i Dafydd Cernyw ac un i Harley Jones. Wedyn daeth buddugoliaeth swmpus yn erbyn tîm ifanc Y Bala, gan gyrraedd hanner can pwynt ac ildio pump yn erbyn yr ymwelwyr.

Daeth y canlyniadau isod i law gan wahanol oedrannau'r Minis o bedair gêm yn erbyn Abergele.

Yr unif dîm i ennill oedd y Dan 10, o 57-5, gyda'r Dan 7 yn colli o 17-15, y Dan 8 o 14-11 a'r Dan 12 o 30-12.

Cafwyd cyfres o gemau yn erbyn Yr Wyddgrug, gyda'r Dan 7 yn ennill o 23-18, y Dan 12 yn ildio hanner can pwynt, a'r Dan 10 yn ennill un gêm o 25-15 a cholli'r llall o 30-10 cyn mynd ymlaen i golli o 25-15 yn erbyn Wrecsam yn eu trydedd gêm o'r diwrnod.

Scoriodd Theo Jones hatric o geisiau i'r Dan 11 yn eu buddugoliaeth o 42-26 yn erbyn Yr Wyddgrug, gyda Ben Hodgkinson ac Oli Owen yn cael eu henwebu fel "Sêr y Gêm".

Curodd y Dan 7 Groesoswallt o 16-12 a llwyddodd y Dan 8 i guro'r un gwrthwynebwyr o 14-10 yn ogystal â churo Wrercsam ddwywaith, o 8-7 ac o 10-8.

***********************************

Gyda chyfnod tair mlynedd Tegid Phillips fel Llywydd yn dod i ben yn fuan, cynhaliwyd ei bedwerydd "Diwrnod y Llywydd" yn ddiweddar. Daeth dros 90 o gyn-chwaraewyr at ei gilydd i fwynhau pryd o fwyd, hel atgofion, gwylio'r gêm yn erbyn Yr Wyddgrug – a llawer mwy, mae'n debyg! Roedd dau wedi dod yr holl ffordd o Ganada, sef Dyfed Palmer o Winnipeg a Clwyd Edwards o Toronto. Hefyd yn bresennol oedd tri a chwaraeodd yn y gêm gyntaf erioed yn hanes y Clwb, yn erbyn Ail Dîm Glannau Dyfrdwy ym mis Ebrill 1977, sef Stephen Evans, John Davies (y llall!) a David Ansell Jones, yn ogystal â'u hyfforddwr D Wyn Jones, neu DWJ.

***********************************

Wrth i ni fynd i'r wasg daeth y newyddion torcalonnus am farwolaeth Tim O'Shea, un a gyfrannodd gymaint i'r Clwb dros gyfnod o flynyddoedd. Bu'n arbennig o weithgar gyda chwaraewyr ifanc y Clwb, a bu'n Hyfforddwr a Chadeirydd yr Adran Mini Iau am rai blynyddoedd, ac hefyd yn Hyfforddwr timau merched y Clwb am gyfnod. Cymaint oedd ei gyfraniad i'r Clwb a'r gymuned leol iddo gael ei enwi yn "Wirfoddolwr y Flwyddyn" gan Gyngor Chwaraeon Sir Ddinbych mewn seremoni wobrwyo ym Mhafiliwn Eisteddfod Llangollen yn 2004. Ond yn bwysicach na hyn i gyd, gŵr bonheddig o'r radd flaenaf oedd Tim. Mawr yw ein cydymdeimlad i'w wraig Paula a'r teulu oll.

*John Davies*


Morgeisi
CARTREF
Mortgages

**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio

Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol

Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

## Noson Lansio llyffr Cerddi Eifion Lloyd Jones 'A CHAWSOM IAITH..'



Myrddyn ap Dafygd o Wasg Carreg Gwalch yn cyflwyno y gyfrol gyntaf i Eifion Lloyd Jones



Gwawr o siop clwyd yn gwerthu'r cyfrolau



Eifion yn llyfnodi llyfr Bobi Owen











Wil, Arwyn a Gwyn yn mwynhau y noson




Mark Roberts yn sgorio ei gôl gyntaf yn erbyn Llanrhaeadr ym Mochnant.




Mark Roberts yn dathlu ei drydedd gôl.



Mae Menter Iaith Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio gyda Dementia Gyfeillgar Dinbych  a dyma Dilwyn, cadeirydd DGD, yn cyflwyno tystysgrif I Iorwen o'r Fenter hefo Ruth a gweddill y staff




DWJ, Stephen, John, Tegid a David



Dyfed, Tegid a Clwyd



Dilwyn eto yn cyflwyno tystysgrif i Vanessa   (tud   10   )



Dilwyn yn cyflwyno tystysgrif I Linsey Tasker, cadeirydd Dinbych yn Blodeuo  Hanes tud